# DATGANIAD YSGRIFENEDIG
# GAN
# LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Rheoliadau Mewnforio a Masnachu Anifeiliaid a Chynhyrchion Anifeiliaid (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) (Rhif 2) 2019** |
| **DYDDIAD** | **12 Awst 2019** |
| **GAN** | **Rebecca Evans AC, Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd** |

**Rheoliadau Mewnforio a Masnachu Anifeiliaid a Chynhyrchion Anifeiliaid (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) (Rhif 2) 2019**

**Y Gyfraith sy'n cael ei diwygio**
- Rheoliadau Mewnforio a Masnachu Anifeiliaid a Chynhyrchion Anifeiliaid (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2019
- Rheoliadau Iechyd Anifeiliaid a Rhywogaethau Estron mewn Dyframaeth a Rhywogaethau Estron Goresgynnol (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019
- Rheoliadau'r Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019

<u>Offerynnau Ewropeaidd sy'n Uniongyrchol Gymwysadwy a ddiwygir gan Reoliadau 2019</u>
- Penderfyniad y Comisiwn EC 94/360
- Penderfyniad y Comisiwn EC 1997/794
- Penderfyniad y Comisiwn EC 2000/571
- Penderfyniad y Comisiwn EC 2000/572
- Penderfyniad y Comisiwn EC 2001/812
- Penderfyniad y Comisiwn EC 2003/779
- Rheoliad gan y Comisiwn (EC) Rhif 136/2004
- Rheoliad gan y Comisiwn (EC) Rhif 282/2004
- Rheoliad gan y Comisiwn (EC) Rhif 1739/2005
- Penderfyniad y Comisiwn EC 2006/168
- Penderfyniad y Comisiwn EC 2007/275
- Penderfyniad y Comisiwn EC 2007/777
- Rheoliad gan y Comisiwn (EC) Rhif 798/2008
- Rheoliad gan y Comisiwn (EC) Rhif 119/2009
- Rheoliad gan y Comisiwn (EC) Rhif 206/2009
- Penderfyniad y Comisiwn EC 2009/712
- Rheoliad y Comisiwn (UE) Rhif 206/2010
- Penderfyniad y Comisiwn EC 2010/470
- Rheoliad y Comisiwn (UE) Rhif 605/2010

- Penderfyniad y Comisiwn EC 2011/163
- Penderfyniad Gweithredu y Comisiwn 2011/215/EU
- Penderfyniad Gweithredu y Comisiwn 2011/630/EU
- Rheoliad y Comisiwn (UE) Rhif 28/2012
- Rheoliad Gweithredu gan y Comisiwn (EU) Rhif 139/2013
- Penderfyniad Gweithredu y Comisiwn 2013/519/EU
- Rheoliad (UE) Rhif 576/2013
- Penderfyniad Gweithredu y Comisiwn 2013/764/EU
- Rheoliad Gweithredu gan y Comisiwn (EU) Rhif 2018/659
- Addasiadau i Gyfarwyddeb 97/78/EC

**Diben y diwygiadau**
Pwrpas Rheoliadau 2019 yw gwneud newidiadau gweithredol technegol drwy addasiadau a defnyddio glosiadau i ddarpariaethau Cyfarwyddeb a drawsgyfeirir o dan Adran 8 Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 ("Y Ddeddf Ymadael") i ddeddfwriaeth bresennol yr UE. Yng ngoleuni y Diwrnod Ymadael nesaf o 31ain Hydref 2019, mae bellach amser i wneud addasiadau i ddarpariaethau a drawsgyfeiriwyd y cyfeirir atynt yn neddfwriaeth yr UE sy'n cael ei gadw sy'n berthnasol i fewnforio anifeiliaid a chynnyrch anifeiliaid.

Hefyd, mae'r diwygiadau i Ran 2 y Rheoliadau yn cynnwys darpariaethau sy'n galluogi Gweinidogion Cymru i arfer swyddogaethau gweinyddol mewn perthynas â Chymru ar yr un pryd fel y caiff Gweinidogion Cymru arfer eu pwerau mewn perthynas â Chymru. Ar yr adegau hynny y credir bod angen, gallai'r Ysgrifennydd Gwladol ddefnyddio yr un swyddogaeth mewn perthynas â Chymru, ond dim ond gyda cydsyniad Gweinidogion Cymru. Mae'r swyddogaethau yn gysylltiedig â gwiriadau cynnyrch trydydd gwlad fel a amlinellir ym Mhenderfyniad y Comisiwn 94/360/EC a phenderfynu ar leoliad arolygfeydd ffin o dan Benderfyniad y Comisiwn 2001/812/EC.

Mae Rheoliadau 2019 a'r Memorandwm Esboniadol cysylltiedig, sy'n nodi effaith y diwygiadau, i'w gweld yma: https://beta.parliament.uk/work-packages/hOJj87eH

**Unrhyw effaith y gall yr OS ei chael ar gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru**
Bydd Rheoliadau 2019 yn ymestyn pwerau gweithredol Gweinidogion Cymru drwy drosglwyddo swyddogaethau gweinyddol i Weinidogion Cymru yng nghyd-destun Cymru.

Mae'r swyddogaethau sy'n cael eu rhoi i Weinidogion Cymru drwy Ran 2 o Reoliadau 2019 i'w defnyddio ar yr un pryd gan yr Ysgrifennydd Gwladol gyda chydsyniad Gweinidogion Cymru.

Mae'r swyddogaethau yn gysylltiedig â'r canlynol:
- cadw at wiriadau rheolaidd o gynnyrch trydydd gwledydd fel a amlinellir ym Mhenderfyniad y Comisiwn 94/360/EC
- penderfynu ar leoliad arolygfeydd ffin o dan Benderfyniad y Comisiwn 2001/812/EC

**Unrhyw effaith y gall yr OS ei chael ar gymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

Mae iechyd anifeiliaid yn fater sy'n syrthio o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol ac mae felly'n fater sydd wedi'i ddatganoli.

Gallai swyddogaethau a drosglwyddir yn gydredol i'r Ysgrifennydd Gwladol fod yn gyfystyr â swyddogaethau un o Weinidogion y Goron at ddibenion Atodlen 7B i Ddeddf Llywodraeth Cymru (2006). Mae'n bosibl, felly, y gallai hynny gyfyngu ar gymhwysedd y Cynulliad i ddeddfu yn y meysydd hyn yn y dyfodol. Er mwyn lleihau'r perygl hwnnw, mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Swyddfa Ysgrifennydd Gwladol Cymru gyda'r bwriad o ddiwygio Atodlen 7B i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 drwy Orchymyn o dan adran 109A y Ddeddf honno.

**Pam y rhoddwyd cydsyniad**

Fel a nodir uchod, mae Rheoliadau 2019 yn gwneud nifer o newidiadau technegol i ddeddfwriaeth bresennol yr UE.

Mae mewnforio ac allforio anifeiliaid byw i mewn ac allan o'r UE yn cael ei hwyluso ar hyn o bryd drwy'r Arolygfeydd Ffin.  O ganlyniad i barhau gydag arferion presennol yr UE o ardystio a monitro drwy ddogfennu a TRACES, bydd y fasnach hon yn parhau i lifo drwy'r Arolygfeydd Ffin. Mae'n bwysig bod y dull presennol o weithredu'r Arolygfeydd Ffin yn cael ei gynnal gan y bydd hyn yn sicrhau bod masnach yn parhau i lifo'n hwylus. Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw Arolygfeydd Ffin yng Nghymru. Mae'r swyddogaethau yn cynnwys nid yn unig weithredu'r Arolygfeydd Ffin, ond hefyd gymeradwyo Arolygfeydd Ffin newydd, sy'n caniatáu dull o weithredu ledled y DU, tra'n caniatáu i Weinidogion Cymru arfer y swyddogaethau hyn yn annibynnol pe byddai Porthladd neu Faes Awyr yn penderfynu bod Arolygfa Ffin yn hyfyw yn fasnachol a dechrau ar y broses o greu un.  Mae'r Arolygfeydd Ffin sy'n weithredol yn y DU ar hyn o bryd yn cael eu rheoli gan gyfuniad o awdurdodau lleol, APHA a Milfeddygon Swyddogol. Mae gan yr awdurdodau cymwys hyn arbenigedd penodol i ganiatáu iddynt weithredu'r Arolygfeydd Ffin.